



Prosiect Peilot Cadwyni Cyflenwi Bwyd a Diod Cydnerth



Mae'r sector bwyd a diod yng Nghymru yn wynebu heriau digynsail o ran costau yn gadwyn gyflenwi, a rhagwelir y bydd hynny'n gwaethgu dros y misoedd nesaf.

Mae Cymru Connect yn adnodd plattform caffael peilot sydd â'r nod o gefnogi cynhyrchwyr i ddatblygu cadwyni cyflenwi mwy effeithlon a chadarn.

Mae'r llwyfan yn cael ei gynnal gan Canopy ac mae'n cynnwys gwybodaeth wedi'i dilysu am gyflenwyr. Mae'r prosiect wedi cael cyllid gan Gronfa Her Adfer Covid.

Manteision i'r cynhyrchwyr sy'n cymryd rhan:

- Cyfle i fasnachu â chyflenwyr sydd wedi'u dilysu ymlaen llaw ac sydd wedi'u cymeradwyo yn unol â safonau cydymffurfio y cytunwyd arnynt
- Gwybodaeth am gyflenwyr yn cael ei chasglu o'r ffynhonnell, ei harchwilio a'i chymeradwyo, gan gael gwared â'r costau gweinyddol a'r baich o gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar sail unigol, gan leihau'r risg
- Potensial i gydweithio â chynhyrchwyr eraill i sicrhau arbedion maint a lleihau costau
- Annog "marchnad fewnol" o brynu oddi wrth ei gilydd, gan hyrwyddo cadwyni cyflenwi byrrach
- Hyfforddiant system lawn yn cael ei ddarparu i'r cynhyrchwyr sy'n cymryd rhan am ddim
- Peiriant chwilio cynhwysfawr sy'n caniatáu i gynhyrchwyr ddod o hyd i gyflenwyr sy'n bodloni gofynion penodol, a masnachu â nhw
- Gall cynhyrchwyr fod yn brynwyr nwyddau neu wasanaethau ac yn gyflenwyr i gynhyrchwyr eraill

Rydyn ni'n chwilio am gynhyrchwyr fel chi i weithio gyda ni ar y cynllun peilot hwn a manteisio ar arbedion effeithlonrwydd caffael a helpu i fynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu cynhyrchwyr yng Nghymru yn y gadwyn gyflenwi.

[Os hoffech chi fod yn rhan o'r prosiect cyffrous hwn, atebwch drwy ddilyn y ddolen hon.](#)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

